The Planning Inspectorate
Yr Arolygiaeth Gynllunio

Cynllunio Seilwaith Cenedlaethol
Temple Quay House
2 The Square
Bryste, BS1 6PN

Gwasanaethau Cwsmeriaid: 0303 444 5000
e-bost: Monaoffshorewindproject@planninginspectorate.gov.uk

Gan ebost yn unig

Eich Cyf:

Ein Cyf: EN010137

Dyddiad: 27 Ebrill 2023

Annwyl Paul Carter,

**Deddf Cynllunio 2008 – Adran 46 a Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad Effaith Amgylcheddol) 2017 – Rheoliad 8**

**Cais gan Mona Offshore Wind Limited am Orchymyn yn Rhoi Caniatâd Datblygu ar gyfer Fferm Wynt Alltraeth Mona**

**Cydnabod derbyn gwybodaeth ynghylch cais arfaethedig**

Diolch am eich ebost 19 Ebrill 2023 a'r ddogfennaeth ganlynol:

- Llythyr eglurhaol a anfonwyd at ymgynghoriadau o dan a42 o Ddeddf Cynllunio 2008
- Copi o'r hysbysiad a gyhoeddwyd dan a47 o Ddeddf Cynllunio 2008
- Llyfryn Ymgynghoriad Statudol
- Ffurflen Adborth Ymgynghoriad Statudol
- Datganiad o Ymgynghoriad Cymunedol
- Poster Ymgynghoriad Statudol
- Copi o'r hysbysiad a gyhoeddwyd yn unol â a48 o Ddeddf Cynllunio 2008 a Rheoliad 13 o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad Effaith Amgylcheddol) 2017
- Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) yng nghwmni Crynodeb Anhechnegol
- Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft

Rwy'n cydnabod eich bod wedi hysbysu'r Arolygiaeth Gynllunio'r o'r cais arfaethedig am Orchymyn yn rhoi caniatâd datblygu at ddibenion adran 46 Deddf Cynllunio 2008 a chyflenwi'r wybodaeth ar gyfer ymgynghori o dan adran 42. Mae'r cyfeirnod canlynol wedi ei roi i'r cais arfaethedig, a fyddwn i'n ddiolchgar petaech chi'n ei ddefnyddio yn y cyfathrebiadau dilynol:

EN010137



disability confident EMPLOYER

Rwyf hefyd yn cydnabod hysbysiad yn unol â Rheoliad 8(1)(b) o Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesiad Effaith Amgylcheddol) 2017 eich bod yn bwriadu darparu datganiad amgylcheddol mewn perthynas â'r Datblygiad Arfaethedig.

Fi fydd eich pwynt cyswllt ar gyfer y cais hwn – mae'r manylion cyswllt ar frig y llythyr hwn.

Rôl yr Arolygiaeth Gynllunio yn y broses cais yw darparu cyngor annibynnol a diduedd am y gweithdrefnau dan sylw a chael trafodaethau agored gydag ymgeiswyr darpar, cyrff statudol ac eraill am brosesau a gofynion y drefn. Mae'n bwysig eich bod yn rhoi gwybod yn gywir am eich amserlen ac unrhyw newidiadau sy'n digwydd.

Byddwn ni'n cyhoeddi cyngor y byddwn yn ei roi i chi neu Bartïon â Buddiant ar ein gwefan, ac os ydynt yn berthnasol, gyfarwyddo partïon i chi fel yr Ymgeisydd. Rydym yn hapus i gyfarfod at gerrig milltir allweddol a/neu ddarparu cyngor wrth i'r cais fynd yn ei flaen drwy'r cyfnod Cyn-cais.

Unwaith y byddwch wedi paratoi dogfennau drafft rydym yn gallu darparu cyngor technegol, yn arbennig ar y Gorchymyn Caniatâd Datblygu Drafft, Memorandwm Esboniadol, yr Adroddiad Ymgynghori ac unrhyw Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd drafft. Efallai y byddwch felly am adeiladu hyn yn eich amserlen.

Yn y cyfamser, efallai y byddwch yn dymuno rhoi sylw i'r canllawiau a'r deunydd deddfwriaeth a ddarperir ar ein gwefan gan gynnwys Rheoliadau Cynllunio Seilwaith (Ffioedd) 2010 (fel y'i diwygiwyd) a'r canllawiau cysylltiedig, y bydd angen i chi arsylwi'n agos wrth sefydlu'r ffi gywir i'w chyflwyno ar gamau olynol y broses ymgeisio.

Wrth geisio bodloni eich rhwymedigaethau cyn-cais, dylech hefyd fod yn ymwybodol o'ch rhwymedigaeth o dan y ddeddfwriaeth diogelu data presennol i brosesu data personol yn deg ac yn gyfreithlon.

Os oes gennych ymholiadau pellach, mae croeso i chi gysylltu â mi.

Yn gywir,

*Jake Stephens*

**Jake Stephens**
**Rheolwr Achos**

Cafodd y penderfyniad hwn ei wneud gan swyddogion ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol o dan bwerau dirprwyedig.